O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1400 (Cy. 171)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*28 Mai 2012*
Yn dod i rym	*10 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 10 Mehefin 2012 ac yn dod i ben pan gaiff arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 50 o fetrau i'r gogledd o Dwnelau Gibraltar i'r pwynt croesi tua 400 o fetrau i'r de o'r Twnnelau hynny;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.